# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 4 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mercher, 17 Mai 2017

Amser: 09.02 - 11.31

Gellir gwylio’r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4161

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau’r Cynulliad: | Simon Thomas AC (Cadeirydd)<br>Mike Hedges AC<br>Eluned Morgan AC<br>David Rees AC<br>Steffan Lewis AC<br>Nick Ramsay AC |
| Staff y Pwyllgor: | Bethan Davies (Clerc)<br>Georgina Owen (Dirprwy Glerc)<br>Gemma Gifford (Dirprwy Glerc)<br>Martin Jennings (Ymchwilydd)<br>Joanne McCarthy (Ymchwilydd)<br>Owen Holzinger (Ymchwilydd)<br>Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Nododd y Pwyllgor y papurau.

## 3 Trafod y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) drafft

3.1 Trafododd y Pwyllgor y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) drafft, a chytunodd i ysgrifennu at yr Ombwdsmon i ofyn am eglurhad ynghylch defnyddio darpariaethau penodol.

## 4 Papur cwmpasu: Y broses gyllidebol ar gyfer deddfwriaeth

4.1 Trafododd y Pwyllgor bapur cwmpasu ar y broses gyllidebol ar gyfer deddfwriaeth.

## 5 Diwygio Rheolau Sefydlog: Proses y gyllideb

5.1 Cytunodd y Pwyllgor i'r Cadeirydd ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes gyda phrotocol diwygiedig y gyllideb.

## 6 Cyllideb Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2016-17 – tanwariant ym Mhenderfyniad y Bwrdd Taliadau

6.1 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Comisiwn yn gofyn am ragor o wybodaeth a gwahodd y Prif Weithredwr newydd i un o gyfarfodydd y Pwyllgor.

## 7 Trosolwg o recriwtio Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

7.1 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Prif Weinidog a Chadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru.

## 8 Cyfyngiadau statudol ar gyflogi cyn-Archwilydd Cyffredinol Cymru

8.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y cyfyngiadau a chytunodd i ysgrifennu at Archwilydd Cyffredinol Cymru cyn eu cyhoeddi.

## 9 Archwilydd Cyffredinol Cymru: Cyfrifon Blynyddol Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2015-16: Trafod yr adroddiad drafft

9.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad â rhai mân newidiadau.

## 10 Ymchwiliad i Fil y Diddymu Mawr a'i oblygiadau i Gymru

10.1 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ynghylch meysydd y bydd gan y Pwyllgor Cyllid ddiddordeb ynddynt.